**Adroddiad i'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Ebrill 2018**

**Swyddog Arweiniol: Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

**Awdur yr Adroddiad: Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

**Teitl:** **Trefniadau Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn y Cyngor Blynyddol**

---

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19 sydd i'w hethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor 15 Mai 2018.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn 2006, cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol, bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod Blynyddol y Cyngor heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.

4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

4.3 Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Peter Scott. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

4.4 Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor gogyfer â’r flwyddyn ddinesig nesaf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw enwebiad wedi dod i law.

**5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ar hyn o bryd telir cyflogau uwch o £21,600 ac £14,100 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

**7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen asesiad o effaith mewn perthynas â’r penderfyniad.

**8 Pa ymgynghori a wnaed?**

8.1 Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ynghylch enwebu aelodau i rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

**10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg i enw da'r Cyngor os nad oes sicrwydd pwy gaiff eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad?**

11.1 Adran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.
Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.